MILFEDDYGAETH

Fel rheol bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Milfeddygaeth y gallu i:

- Weithio fel aelod o dîm amlddisgyblaethol yn darparu gwasanaethau i gleientiaid a chyflogwyr.
- Cyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd, cydweithwyr proffesiynol ac awdurdodau priodol.
- Ymateb yn briodol i effaith pwysau economaidd ac emosiynol.
- Meithrin a chynnal perthynas broffesiynol dda gyda chleientiaid a chydweithwyr, datblygu cyd-ymddiriedaeth a pharchu eu safbwyntiau proffesiynol a chyfrinachedd.
- Gweithredu'n gyfrifol yn y gymuned, yn enwedig mewn perthynas ag egwyddorion moesegol.
- Defnyddio TG, gan gynnwys prosesu geiriau, trin data ac adalw gwybodaeth.
- Cynhyrchu adroddiadau ar ffurf sy'n foddhaol ac yn ddealladwy i'r gynulleidfa arfaethedig.
- Cydnabod eich cyfyngiadau eich hun: cydnabod pryd mae angen cymorth a deall y protocolau ar gyfer ymdrin ag ail farn.
- Gallu cymhwyso arferion ariannol a chyfrifyddu sylfaenol a chadw cofnodion.
- Deall a chyflawni'r rheidrwydd ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus.
- Dysgu a defnyddio llawer iawn o wybodaeth wyddonol ac ymarferol.

Trosolwg o Filfeddygaeth

Astudio, gwneud diagnosis, trin ac atal clefyd mewn anifeiliaid fel unigolion ac mewn grwpiau yw milfeddygaeth. Mae gan aelodau'r proffesiwn swyddogaeth allweddol fel gwarcheidwaid iechyd dynol yng nghyd-destun trosglwyddo clefydau o anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid i bobl.

Mae graddedigion yn gweithio mewn milfeddygfeydd yn bennaf. Mifeddygfeydd anifeiliaid bach, ceffylau, anifeiliaid fferm neu gymysg yw'r rhain fel arfer. Mae milfeddygon mewn milfeddygfeydd yn cyflawni pob agwedd ar ofal meddygol ac ymgynghoriadau sylfaenol, gweithdrefnau diagnostig, gan gynnwys delweddu diagnostig a thechnegau labordy, meddygaeth a llawdriniaeth. Gellir dilyn astudiaeth bellach er mwyn ennill cymwysterau arbenigol mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau (ee delweddu diagnostig, offthalmoleg ac ati) sy'n golygu y gellir cael cyflogaeth mewn canolfannau atgyfeirio am ail farn neu filfeyddgfeydd arbenigol.

Gall unigolion sydd wedi graddio ddewis gyrfa ym maes ymchwil a/neu addysgu, ar ôl hyfforddiant ôl-raddedig fel arfer. Mae milfeddygon yn cael eu cyflogi mewn labordai gwyddor naturiol, ysgolion milfeddygol a meddygol, sefydliadau ymchwil meddygol a'r sefydliadau hynny sy'n ymdrin yn benodol ag iechyd a chlefydau anifeiliaid. Mae cyfleoedd ar gael yng ngwasanaethau'r llywodraeth neu wasanaethau asiantaethau perthnasol yn ogystal â phrifysgolion tramor, cwmnïau fferyllol, cynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes neu sefydliadau masnachol eraill a sefydliadau uwchlywodraethol megis Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig.

Ffynhonnell: CIHE 2006